Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Gorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu) 2022

Tachwedd 2022

1. Y cefndir

1. Gosododd Llywodraeth y DU fersiwn ddrafft o Orchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu) 2022 (y Gorchymyn)[1] gerbron Senedd y DU ar 19 Hydref 2022.

2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol, neu offeryn statudol drafft, a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth gymwys") mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

3. Ar 21 Hydref, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y Memorandwm)[2] gerbron y Senedd ar gyfer y Gorchymyn, yn unol â Rheol Sefydlog 30A. Ysgrifennodd y Gweinidog i'n hysbysu ni a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith o'r Memorandwm.[3]

2. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

4. Prif amcan y Gorchymyn yw ehangu cwmpas yr allyriadau a gesglir ac yr adroddir arnynt o dan *Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ("y CCA")*.

5. Mae'r Memorandwm yn nodi'r canlynol:

> *"Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth o ran allyriadau at ddiben adroddiadau carbon yr CCA. Y canlyniad yw y caiff allyriadau NF_3 eu cynnwys ymhlith yr allyriadau a gofnodir ar gyfer Datganiad Allyriadau Blynyddol 2021 (i'w gyhoeddi Mawrth 2023), cyfnod cyfrifo llawn Trydedd Gyllideb Garbon y DU (2018-2022), a chyllidebau carbon y DU wedi hynny."*[4]

6. Mae'r Gorchymyn y mae'r Memorandwm yn ymwneud ag ef yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, a daw'r darpariaethau i rym y diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud.

---

[1] Gorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu) 2022 (drafft) [Saesneg yn unig]

[2] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru: Gorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu) 2022

[3] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 21 Hydref 2022

[4] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol: paragraff 7

7. Gellir disgrifio'r darpariaethau yn y Gorchymyn fel rhai sy'n ymwneud â 'diogelu'r amgylchedd' (gan gynnwys 'llygredd'), nad yw'n fater a gedwir yn ôl i Senedd y DU o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

8. Mae paragraffau 13 a 14 o'r Memorandwm yn esbonio pam, ym marn Llywodraeth Cymru, y mae'n briodol i'r Gorchymyn wneud y darpariaethau hynny. Yn benodol, mae'r Memorandwm yn datgan "y Gorchymyn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i wneud y ddarpariaeth dan sylw yn gymwys yng Nghymru."[5]

3. Trafodaeth y Pwyllgor

9. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 14 Tachwedd 2022.[6]

Ein barn ni

10. Rydym yn fodlon ar y Memorandwm ond yn ystyried y dylai'r Gweinidog gyflwyno cynnig i ofyn am gytundeb y Senedd i gynnwys darpariaethau cymwys yn y Gorchymyn.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 30A.10 i ofyn am gytundeb y Senedd i gynnwys darpariaethau cymwys yng Ngorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu) 2022.

11. Wrth ddod i'r farn hon, rydym wedi ystyried safbwyntiau'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd, a fynegwyd mewn gohebiaeth â Llywodraeth Cymru,[7] a'r farn a fynegwyd gan y Llywydd mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd.[8] Byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ynghylch y mater hwn.

[5] Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol: paragraff 13

[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022.

[7] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Llythyr at y Prif Weinidog, 6 Chwefror 2019; Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Bumed Senedd), Llythyr at y Prif Weinidog, 23 Hydref 2020

[8] Y Llywydd, Llythyr at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 7 Mai 2019